

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw: Elaine Edwards

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): UCAC (Undeb Cenedlaethol  
Athrawon Cymru)

E-bost / rhif ffôn: 01970639950

Eich cyfeiriad: Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth,  
Ceredigion SY23 2EU

### Ein cwestiynau

1. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai'r gyfraith bresennol barhau mewn grym, sy'n pennu na chaiff cyflogwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ddefnyddio gweithwyr a gyflogir gan fusnes cyflogaeth i weithio yn lle staff sy'n gweithredu'n ddiwydiannol neu staff sy'n gweithio yn eu lle nhw.

Ydych chi'n cytuno? **Ydw**

Mae UCAC yn cytuno â hyn. Mae angen sicrhau na chaiff cyflogwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru (gan gynnwys ysgolion) ddefnyddio gweithwyr asiantaeth / gweithwyr a gyflogir gan fusnes cyflogaeth, i weithio yn lle staff / cyflogeion sydd yn gweithredu'n ddiwydiannol.

2. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y trefniadau gwirfoddol presennol yn ddigonol i sicrhau bod y gwasanaethau pwysicaf yn cael eu diogelu gan y gwasanaethau cyhoeddus yn ystod cyfnod o weithredu diwydiannol.

Ydych chi'n cytuno? **Ydw**

Mae UCAC yn cytuno â hyn. Mae undebau wedi cyd-weithio gyda chyflogwyr yn y gorffennol i ddiogelu gwasanaethau ar gyfer aelodau mwyaf bregys ein cymdeithas ac mae'n egwyddor sydd yn sicr o barhau.

3. Nid yw Llywodraeth Cymru yn rhagweld y byddai'r cynnig yn effeithio'n fawr ar sefyllfa ariannol asiantaethau a busnesau cyflogaeth.

Ydych chi'n cytuno? **Ydw**

Cytuno.

4. Ydych chi'n cytuno mai deddfwriaeth sylfaenol i greu dyletswydd ar gyflogwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i beidio â defnyddio gweithwyr asiantaethau yw'r opsiwn gorau i gyflawni ein hamcan?

**Ydw**

Credwn y byddai deddfwriaeth sylfaenol i eithrio undebau sector gyhoeddus yng Nghymru rhag elfennau o'r Ddeddf Undebau Llafur yn fanteisiol oherwydd y lefel uwch o graff a'r ffaith ei fod yn anoddach newid deddfwriaeth sylfaenol. Efallai mai'r ffordd gorau ymlaen yw creu deddfwriaeth sylfaenol gadarn gyda chanllawiau / rheoliadau statudol i gynnwys manylion am weithredu'r gofynion.

5. Ydych chi'n cytuno mai canllawiau neu gyfarwyddyd gan Weinidogion i gyflogwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yw'r opsiwn gorau i gyflawni'r amcan?

**Nac ydw (Gweler ateb 4 a 5)**

Efallai bod perygl o gyflogwyr yn osgoi gweithredu ar ganllawiau / rheoliadau. Byddai rhaid sicrhau bod gan gyflogwyr wybodaeth gadarn bod y canllawiau'n statudol a bod modd mynd i gyfraith am beidio â gweithredu yn unol â'r canllawiau / rheoliadau. Byddai creu canllawiau a rheoliadau statudol yn caniatáu addasu pan fyddai angen. Mae'n debygol, felly, mai'r dull gorau i'w dewis byddai cyfuniad o ddeddfwriaeth sylfaenol gyda chanllawiau / rheoliadau statudol.

6. A oes yna amgylchiadau y dylid eu heithrio o'r ddyletswydd ac, os felly, beth fyddai canlyniadau peidio â'u heithrio yn eich barn chi?

Dim.

7. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.

Mae Bil Cymru ar hyn o bryd yn cael sylw yn Nhŷ'r Arglwyddi ac mae'n cynnwys, erbyn hyn, gwelliant am ddatganoli materion cyflog ac amodau gwaith athrawon ysgol. Mae'n bwysig i unrhyw Ddeddfwriaeth allu cynnwys, o'r cychwyn, pob agwedd o fyd addysg ag asiantaethau sydd yn cynnig athrawon cyflenwi ar gyfer ysgolion.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma.

